**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

10 Chwefror 2022

Annwyl Paul

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Fel y gwyddoch o bosibl, fel rhan o'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, cytunodd Llywodraeth Cymru y byddai Gweinidogion yn hysbysu'r Senedd ynghylch pryd yr oeddent yn bwriadu rhoi, neu wedi rhoi, eu cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ar 20 Rhagfyr 2021 cawsom lythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, yn ein hysbysu ynghylch y ffaith ei bod wedi rhoi ei chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y rheoliadau uchod, sef Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021, mewn perthynas â Chymru. Yn dilyn ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2022 gwnaethom gytuno i ysgrifennu at y Gweinidog er mwyn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion yn ymwneud â'i llythyr a'r Rheoliadau. Trafododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror 2022. Yna, o ystyried cylch gwaith eich Pwyllgor chi, cytunodd y Pwyllgor i dynnu eich sylw at yr ohebiaeth ynghylch y Rheoliadau hyn.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd